CYNGOR TREF FFESTINIOG TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**

**☎ 01766 832 398 ✉ dirprwyglerc@cyngortrefffestiniog.cymru**

# Rhaglen

## Pwyllgor Mwynderau

**21/07/2025 • 19:00 •**

**Siambr y Cyngor ac Ar-lein**

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A] NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol**

https://us02web.zoom.us/j/84196471418?pwd=azUrVImyEb4jkajvLTsW5E24DuK2fq.1

Meeting ID: 841 9647 1418
Passcode: 699774

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**Nos Lun 21ain o Fehefin AM 7.00 YR HWYR**
**AT GADEIRYDD AC AELODAU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG. FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG. MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD I FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

**Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |
| **2.** | | **Datgan Buddiannau**<br>Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |
| **3 .** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud). |
| **4.** | | **Caeau Chwarae**<br>Arolwg misol mis Gorffennaf 2025 - Derbyn crynodeb o archwiliadau misol o'r caeau chwarae. |
| **5.** | | **Llwybrau Cerdded**<br>Derbyn ac adolygu adroddiad llwybrau cyhoeddus mis Gorffennaf 2025 |
| **6.** | | **Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw.**<br>Derbyn adroddiad ar waith y Swyddog Cynnal a Chadw yn ystod y mis diwethaf. |

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | | **Diweddariad ar Faes Parcio'r Berllan**<br>Derbyn adroddiad llafar yn y cyfarfod. |
| **8.** | | **Gohebiaeth gan Aelod o'r Cyhoedd - Cais am Ragor o Gyfleusterau/Gwelliannau ym Mharc Manod**<br>I ystyried y cais a phenderfynu a ellir cefnogi neu ddatblygu unrhyw gamau neu welliannau. |
| **9.** | | **Cais gan Dîm Pêl-rwyd Leol - Marciau Pêl-rwyd ar Ardal Chwaraeon yn y Parc**<br>I ystyried y cais ac a all y Cyngor gefnogi ychwanegu marciau pêl-rwyd ar wyneb yr ardal chwaraeon. |
| **10.** | | **Cais gan Chwarae Gwynedd – Ymweliad â Sgwâr Blaenau Ffestiniog gyda Threlar Chwarae**<br>I ystyried cais gan Chwarae Gwynedd i ymweld â Sgwâr Blaenau Ffestiniog ar fore Dydd Mercher, 27ain Awst 2025, rhwng 10:30 a 12:30. |
| **11.** | | **Materion Parhaus yn y Parc – Sbwriel a Threfniadau Mynediad**<br>I drafod pryderon ynghylch sbwriel yn cael ei adael yn y parc a'r anawsterau parhaus gyda threfnu agor a chau'r parc yn ddyddiol. |
| **12.** | | **Arolygu a Thrafod Adroddiad 2025 RoSPA**<br>I adolygu cynnwys adroddiad arolygu RoSPA ar gyfer 2025 ac ystyried unrhyw gamau gweithredu neu welliannau sydd eu hangen yn sgil y canfyddiadau. |
| **13.** | | **Adroddiad Gwaith Mwynderau'r Clercod - Gwaith a Gwblhawyd**<br>Derbyn rhestr o'r gwaith a gwblhawyd gan y Clercod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Mwynderau. |

Ellen Pugh
Dirprwy Clerc y Dref
DYDDIAD: 16/07/2025

